Estyn
*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ysbyty Ifan
**Ysbyty Ifan**
**Betws Y Coed**
**Conwy**
**LL24 0NY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Mr Goronwy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref bach Ysbyty Ifan ger Betws y Coed. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Mae'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru dan reolaeth wirfoddol. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 11 oed. Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae bron bob un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn llawn amser i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 28 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddwy o athrawon llawn amser a dwy athrawes ran amser.

Nid oes unrhyw un o'r disgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd â hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Conwy a Chymru. Mae pump o ddisgyblion (22%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ysbyty Ifan yw £6,436. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £13,941 a'r isafswm yw £2,935. Ysgol Ysbyty Ifan yw'r 10fed allan o'r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Ysbyty Ifan yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod ag anghenion rhan fwyaf y disgyblion;
- yr ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, a'r llywodraethwyr;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda; a
- pharodrwydd yr ysgol i gydweithio mewn cymunedau dysgu proffesiynol effeithiol.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 sicrhau gwelliant yn y niferoedd disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;

A2 codi safonau yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael tasgau sy'n eu hymestyn yn llawn; a

A3 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn dda o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a ffigyrau Cymru. Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 mewn Cymraeg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi cyflawni lefel 3 mewn mathemateg na gwyddoniaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r cyflawniadau ar lefel 4 yn y Gymraeg yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae cyflawniad yn Saesneg yn amrywio ond yn tueddu i fod yn is nag ysgolion y teulu.

Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 mewn Cymraeg yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi cyflawni'r lefel uwch yn Saesneg dros y cyfnod hwn. Mae canran y disgyblion gyflawnodd lefel 5 ym mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Gwelir cynnydd da hefyd yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn gan ddefnyddio geirfa eang a gafael da ar gystrawen naturiol.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau, yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn trafod eu gweithgareddau darllen yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion sydd â'u hoed darllen yn uwch na'r disgwyliadau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac yn darllen ar

goedd yn gywir ac ystyrlon. Mae’r goreuon yn newid goslef yn effeithiol iawn gan ddangos aeddfedrwydd amlwg. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, daw rhan fwyaf y disgyblion i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain yn annibynnol. Mae’r goreuon yn llunio cyfres o frawddegau synhwyrol gan amrywio ffurf y frawddeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i ysgrifennu i sawl pwrpas. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ailddrafftio. Erbyn diwedd y cyfnod mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu i sawl pwrpas. Gwna rhan fwyaf y disgyblion gynnydd da yn atalnodi eu gwaith gan baragraffu’n briodol. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill, gan wneud defnydd cynyddol o dermau arbenigol. Mae safonau cywirdeb gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg yn dda.

Mae medrau dwyieithog rhan fwyaf y disgyblion yn briodol. Wrth gychwyn yn yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sydd â meistrolaeth o’r Saesneg, serch hynny mae eu sgiliau llafar yn datblygu’n briodol yng nghyfnod allweddol 2. Mae mwyafrif disgyblion hŷn yn darllen amrywiaeth o destunau yn unol â’u hoedran a’u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder cynyddol yn Saesneg. Er hynny, nid yw’r rhai llai abl yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus iawn i gywain ystyr. Er bod medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n briodol yng nghyfnod allweddol 2 nid yw safon eu gwaith cystal ag yn y Gymraeg, yn bennaf oherwydd nad yw medrau sillafu llawer ohonynt yn ddigon cadarn. Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd a llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn y gwahanol bynciau.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gynhwysfawr o sut i gadw'n iach a heini ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff a bwyta’n iach. Mae canran y disgyblion sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon yn uchel.

Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Maent yn hynod o gwrtais, yn cydweithio’n effeithiol ac yn ymddwyn yn dda.

Mae lefelau presenoldeb cyfredol o 95.9% yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol ag ysgolion tebyg.

Mae llawer o’r disgyblion yn gweithio’n dda yn annibynnol dan gyfarwyddyd yr athrawon ac yn dechrau cyfrannu at yr hyn y maent yn dysgu. Mae’r mwyafrif yn deall pa mor dda maent yn ei wneud; serch hynny nid ydynt bob amser yn glir beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Mae llawer o’r disgyblion yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau yn y gymuned sy’n cael effaith gadarnhaol are eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Mae’r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad da iawn i brosesau gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae rhedeg y siop gymunedol yn enghraifft werthfawr o waith y cyngor ysgol yn y gymuned.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd ar y cyfan yn ymateb i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn herio disgyblion mwy galluog i symud ymlaen yn eu dysgu nac ychwaith yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt fod yn annibynnol yn eu dysgu.

Er mae parhau i ddatblygu mae cynlluniau'r gwaith yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r egwyddorion wedi eu sefydlu ac mae'r ddarpariaeth yn cynnig gweithgareddau dysgu amrywiol, diddorol a symbylus i'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau allweddol wedi eu hail strwythuro'n ddiweddar i sicrhau darpariaeth fwy addas ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth hefyd yn nodwedd gref. Enghraifft o hyn yw ymroddiad yr ysgol i sicrhau ymrwymiad disgyblion mewn gweithgareddau cymunedol a diwylliannol megis yr Wŷl Gerdd Dant a'r Urdd.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o gynaladwyedd a'r amgylchfyd yn dda. Enghraifft dda o hyn yw'r mentrau ailgylchu papur a dillad. Nid yw'r cyfleoedd i hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi eu datblygu cystal.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas ofalgar yn bodoli rhwng yr athrawon a'u disgyblion ac mae'r ethos cefnogol yn amlwg yn y ddau ddosbarth. Ar y cyfan, gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol. Yn y gwersi gorau rhoddir sylw canolog i ddatblygu'r medrau allweddol a gwneir defnydd da o strategaethau meddwl. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol nid yw'r deilliannau dysgu bob amser yn glir i'r disgyblion ac nid oes digon o her i'r gwahanol alluoedd o fewn y dosbarth.

Darperir amrywiaeth o gyfleoedd da i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn sesiynau sgiliau penodol.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol yn ystod gwersi. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd er bod y marcio yn fwy cyson a thrwyadl yn y llyfrau Iaith. Yma mae'r sylwadau yn fwy treiddgar gydag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn gwreiddio yn yr ysgol. Mae'r drefn o sicrhau fod disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'u targedau yn dechrau datblygu yn eu gallu i hunan asesu a chyd asesu gwaith ei gilydd.

Gwneir defnydd helaeth iawn o ddeilliannau profion safonol i grwpio disgyblion ac i drefnu ymyrraeth addas ar eu cyfer. Cedwir portffolios asesu manwl i dracio cynnydd.

Cwblhawyd asesiadau manwl o Broffil Asesu'r Cyfnod Sylfaen i gyd fynd â gofynion cenedlaethol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda iawn, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Hyrwyddir yn effeithiol bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn datblygu dysgwyr yn foesol ac yn ysbrydol ac yn hybu parch a sensitifrwydd tuag at eraill.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Gwneir defnydd da o'r cyswllt ag asiantaethau eraill wrth ymdrin â materion megis diogelwch a chamddefnyddio cyffuriau.

Darperir cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion trwy arsylwi cyson, cyd drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae portffolios tracio unigolion yn gynhwysfawr ac yn arf ddefnyddiol i drefnu rhaglenni ymyrraeth effeithiol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae yma ethos cartrefol, croesawgar ac mae'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda. Rhoddir pwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal ac mae mynediad i gwricwlwm eang ar gael i'r holl blant.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd ddysgu priodol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Gwna'r ysgol y defnydd gorau o'r adeilad a'r tir. Mae'r gofod allanol ar gyfer y plant ieuengaf a gardd yr ysgol yn adnodd deniadol ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol i hybu dysgu.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Ceir amrywiaeth da o adnoddau sydd yn cael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu gan gynnwys buddsoddiad diweddar mewn TGCh.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd da o gyfleusterau'r pentref i oresgyn y diffygion sydd ar y safle.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, a'r llywodraethwyr. Mae cyfrifoldebau staff a ddiwygiwyd yn ddiweddar wedi eu diffinio'n glir ac mae staff yn cydweithio'n effeithiol i weithredu'r blaenoriaethau gwelliant. Gweithredir trefniadau priodol i reoli perfformiad. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad i nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Y mae hyn wedi arwain at ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac at welliannau mewn agweddau ar gyflawniad, yn enwedig yn y Saesneg.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae'n gyfarwydd â dadansoddiadau o ddata perfformiad ac yn cyfrannu at osod cyfeiriad strategol yr ysgol drwy drafod blaenoriaethau'r adroddiad hunan arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun datblygu ysgol, ynghyd ag ymweliadau cyson â'r ysgol, yn galluogi'r llywodraethwyr i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Y mae hyn yn enwedig ym meysydd lles, codi safonau llythrennedd a chydweithio gydag ysgolion eraill fel cymunedau dysgu proffesiynol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda. Mae'r broses yn drylwyr ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion a dadansoddiad gofalus o ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn nodi'n gywir yr agweddau lle mae angen gwelliant.

Mae cyswllt agos rhwng yr hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau clir gyda ffocws priodol ar godi safonau. Mae strategaethau addas ar gyfer cyflawni'r bwriadau a defnydd da o feini prawf penodol i fesur llwyddiant, ynghyd â therfynau amser penodol.

Mae ansawdd ymglymiad yr ysgol o fewn ei chymuned dysgu broffesiynol ac ysgolion eraill y clwstwr yn nodwedd gref, gyda thystiolaeth glir bod hyn yn arwain at welliannau yn y ddarpariaeth a safonau grwpiau penodol o ddisgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio agos gydag ysgol gyfagos sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar godi safonau yn y Saesneg.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion ac ar agweddau o'r ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw'r argymhellion wedi eu llawn gyflawni parthed codi safonau yn Saesneg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy’n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae partneriaeth gref iawn gyda’r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella’r ddarpariaeth addysgol. Mae cysylltiadau niferus â’r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar brofiadau dysgu’r disgyblion a’u hymwybyddiaeth o’u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Mae’r cydweithio da gyda chylch meithrin y pentref sy’n cwrdd yn yr ysgol wedi sicrhau defnydd da o adnoddau ac yn paratoi’r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau da gyda chyflogwyr lleol sy’n codi ymwybyddiaeth disgyblion o’r ardal leol a byd gwaith. Enghraifft dda o hyn yw’r cydweithio gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wella’r ddarpariaeth allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae cysylltiad cryf gyda’r ysgol uwchradd leol ag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Enghraifft dda o hyn yw’r cydweithio agos wrth gymedroli a chyd safoni asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2. Mae ymweliadau rhwng yr ysgolion lleol wedi bod yn fodd o gyfnewid arferion da ac wedi cyfrannu at godi safonau ysgrifennu.

Mae tystiolaeth hefyd o gydweithio da gydag ysgolion cyfagos i drefnu ymweliadau addysgol a gweithgareddau ar y cyd er mwyn rhannu costau sy’n eu galluogi i ddefnyddio eu cyllid mewn modd mwy effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Ar y cyfan gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o arbenigeddau’r staff ac mae adnoddau ariannol yn cael eu rheoli a’u defnyddio’n dda. Mae nifer priodol o athrawon profiadol gyda’r wybodaeth a’r arbenigedd i gyflwyno’r cwricwlwm yn effeithiol. Rhoddir cefnogaeth dda iddynt gan staff cymorth cydwybodol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Er hyn, ar adegau mae diffyg staff cymorth yn y cyfnod sylfaen yn cyfyngu ar yr ymyrraeth sydd ar gael i'r disgyblion hyn yn enwedig wrth iddynt ymwneud â’r ddarpariaeth barhaus.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio’n effeithiol. Mae gwariant yn cael ei fonitro’n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu bwriadau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

Cyfnod Allweddol 1

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Mae hyn hefyd yn wir am y pynciau hyn yn unigol, yn ogystal â llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl yn amrywio. Mae ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf ac yn y 25% isaf yn y ddwy flynedd arall.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Cymraeg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyflawni lefel 3 mewn mathemateg na gwyddoniaeth dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Cyfnod Allweddol 2

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Mewn Cymraeg, mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch wedi bod yn sylweddol uwch na ffigwr y teulu o ysgolion mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn llefaredd a darllen Cymraeg wedi bod yn uwch na ffigyrau'r teulu a Chymru dros yr un cyfnod. Mewn ysgrifennu, mae'r canran ychydig mwy amrywiol.

Yn Saesneg, bu canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn amrywio ac yn is na'r teulu a Chymru mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Mae perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf.

Mae cyflawniadau ar lefel 5 yn y Gymraeg yn gyson uwch o'i gymharu ffigyrau'r teulu a Chymru. Mae canran y disgyblion gyflawnodd lefel 5 neu uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch yn Saesneg dros y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (12 disgybl). Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno gyda'r datganiadau yn yr holiadur i gyd, ac eithrio un disgybl nad oedd yn cytuno fod pob disgybl yn ymddwyn yn dda bob amser.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Janet George | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona M.Hughes | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.